Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Sgwd yr Eira

Cafodd yr Hawl Tramwy Cyhoeddus at a thu cefn i Sgwd yr Eira ei gau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mis Mai 2007 ar gais Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn dilyn pryderon bod cerrig yn disgyn o'r creigiau gerllaw. Yn ddiweddarach, gwnaed archwiliad o'r safle gan ARUP, sy'n gwmni arbenigol, a chadarnhawyd fod wyneb y graig yn ansefydlog ac y gallai achosi perygl i'r cyhoedd.

Meddai Jessica Poole, Arweinydd Tîm Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru: "Mae Sgwd yr Eira o fewn Ardal Gadwraeth Arbennig Coedydd Nedd a Mellte. Fel Ardal Gadwraeth Arbennig mae'r safle hwn yn bwysig yn rhyngwladol ac mae'n cael ei warchod yn dda o dan gyfraith amgylcheddol Ewrop.

"Oherwydd hyn, mae'n rhaid i unrhyw waith a wneir i sefydlogi wyneb y graig gael ei ystyried yn ofalus i sicrhau nad yw'n cael effaith andwyol ar yr Ardal Gadwraeth Arbennig."

"Fel rhan o'i ddyletswydd, o dan gyfraith Ewrop, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi gwneud 'Asesiad Priodol', sy'n ystyried a fydd y gwaith yn cael effaith andwyol ar y safle.

"Mae hwn yn cael sylw ar hyn o bryd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, fel rhan o'i ddyletswydd o dan yr un ddeddfwriaeth. Bydd y Cyngor yn cwrdd â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ar y safle yn ddiweddarach yr wythnos hon i roi cyngor pellach.

"Er bod diogelu Sgwd yr Eira a'r coed o gwmpas oherwydd eu pwysigrwydd fel gwarchodfa natur yn fater allweddol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, mae'n rhaid i ni hefyd fel rhan o'n cylch gwaith ehangach ystyried materion hamdden a mynediad i gefn gwlad."

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, fel yr Awdurdod Priffyrdd (mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Briffyrdd yn ôl y gyfraith) yn cydweithio'n agos i ddatrys yr holl broblemau hyn.

Mae rhan helaeth o ardal y rhaeadr, gan gynnwys Sgwd yr Eira ei hun, wedi'i dynodi'n dir mynediad dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r sgwd a'r ardal o gwmpas felly yn dal ar agor i'r cyhoedd.

DIWEDD